

Llywodraeth Cymru
Welsh Government






# Cynllun Cyflawni Rhaglen Dileu TB Cymru

Mawrth 2023 – Mawrth 2028

# Cynnwys


1. **Rhagair gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** 3

2. **Cyflwyniad** 4

3. **Darlun o'r clefyd** 5

4. **Ein Polisi TB** 10

**Dull o'r newydd ar gyfer dileu TB**

5. **Y Rhaglen Lywodraethu** 13
   - Bwrdd y Rhaglen Dileu TB
   - Grŵp Cynghori Technegol

6. **Cyfraniad rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth** 14

7. **Cyflawni** 18
   - Dull rhanbarthol a thargedau
   - Clystyrau â Phroblem TB
     - Ardal TB Ganolradd y Gogledd
     - Ardal TB Isel, yn cynnwys Ynys Môn
     - Sir Benfro
   - Unedau Pesgi Cymeradwy
   - Taliad am wartheg sy'n dioddef o TB
   - Prynu Gwybodus
   - Profion TB
   - Brechu gwartheg
   - Brechu moch ddaear

8. **Newidiadau deddfwriaethol** 23

9. **Monitro ac adolygu ein Rhaglen** 24

10. **Crynodeb** 25

11. **Atodiad 1 – Map o Ranbarthau Cymru** 27



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47103, ISBN digidol 978-1-80535-681-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Rhagair gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Y tro diwethaf i Lywodraeth Cymru ddiweddaru ei dull o Ddileu TB yn llwyr oedd 2017 pan gyhoeddwyd **Rhaglen** gyffredinol hirdymor a **Chynllun Cyflawni** cychwynnol, a oedd ar waith rhwng 2017 hyd heddiw, lle tynnwyd sylw at fesurau penodol y dylid mynd i'r afael â nhw. Ymhlith pethau eraill, cyflwynodd y Cynllun Cyflawni ddull rhanbarthol o ddileu TB yng Nghymru ynghyd â nifer o fesurau i ymdrin â TB buchol mewn modd rhagweithiol a dwys yn ystod achosion parhaus o TB.

Yn 2017, fy ngobaith oedd y byddai'r Llywodraeth, milfeddygon, ffermwyr a sefydliadau ffermio yn gweithio gyda'i gilydd i fwrw ymlaen â'n Rhaglen, a cheir nifer o enghreifftiau o'r modd mae'r dull cydweithio hwn wedi esgor ar ganlyniadau llwyddiannus. Gwnaed llawer o gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni cychwynnol a gellir gweld hyn yn fanwl ar ein **wefan**. Gan edrych ar y cynnydd hirdymor ers i'r Rhaglen Dileu TB ddechrau yn 2008, gwelir lleihad sylweddol yn nangosyddion allweddol y clefyd, gyda gostyngiad amlwg mewn mynychder TB (buchesi ag achosion newydd fesul bob 100 o brofion Statws Heb TB Swyddogol) ar draws nifer o Ardaloedd TB yng Nghymru. Hefyd, rydym wedi cymryd camau pendant ochr yn ochr â cheidwaid i leihau'r clefyd mewn rhai ardaloedd pan fo angen.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn dal i fod wrth galon a chraidd y dasg o ddileu TB yng Nghymru. Cadarnhawyd hyn gan yr ymatebion i ymgynghoriad 2021, gan ganlyniadau'r **Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu â Ffermwyr**, gan **Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** a chan Grŵp Ffocws TB yr NFU (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr). Mae'n amlwg bod angen inni adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd ar y cyd hyd yma er mwyn inni allu anelu at ein nodau a'n hamcanion cyffredin ac er mwyn i'r cymunedau gwledig y mae TB buchol yn effeithio'n uniongyrchol arnynt allu teimlo eu bod yn allweddol i'r Rhaglen Dileu TB a'r cynllun cyflawni hwn, ac yn hollbwysig i sicrhau eu llwyddiant.

Os ydym am gyflawni ein nod o gael Cymru sy'n rhydd o TB, rhaid i ni, y Llywodraeth, y diwydiant ffermio a'r proffesiwn milfeddygol weithio gyda phartneriaid yn y byd academaidd, y gymuned wledig ehangach a'r trydydd sector i fod yn rhan o'r ateb i'r broblem TB buchol.

Mae safonau uchel o fioddiogelwch yn angenrheidiol er mwyn diogelu pob anifail rhag clefydau o bob math, nid TB yn unig ac mae buchesi a diadellau di-glefyd yn gwneud busnesau mwy proffidiol a chynaliadwy. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol yn atgyfnerthu pwysigrwydd safonau uchel o fioddiogelwch ar bob fferm, gan gydnabod y gallai cyflwyno clefydau arwain at effeithiau ariannol difrifol a hirdymor ar broffidioldeb fferm ac iechyd a lles anifeiliaid. Rydym yn gobeithio, rydym angen ac rydym yn disgwyl i holl geidwaid gwartheg Cymru chwarae eu rhan yn ein cydymdrech i ddileu TB trwy roi safonau bioddiogelwch uchel ar waith ar eu ffermydd a thrwy gyrchu gwartheg yn gyfrifol. Gall y Llywodraeth ategu'r camau hyn trwy ddarparu'r offer i alluogi ceidwaid i ddiogelu eu buchesi.

Datblygwyd yr ail Gynllun Cyflawni hwn, sy'n ymdrin â'r cyfnod pum mlynedd rhwng 2023-2028, trwy ymgynghori'n helaeth a thrwy wrando ar unigolion y mae TB yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar eu bywydau a'u bywoliaeth. Yn awr, rhaid i'r holl bartïon ddod ynghyd, uno a gweithio'n effeithiol fel un i gymryd camau breision eraill tuag at ein nod yn y pen draw, sef Cymru â Statws Heb TB Swyddogol.





**Lesley Griffiths AS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

# 2. **Cyflwyniad**

Diben y ddogfen hon yw nodi gwelliannau allweddol i Raglen Dileu TB Cymru a roddir ar waith o fis Ebrill 2023. Daw'r ail Gynllun Cyflawni o dan Raglen Dileu TB Cymru, lle nodir ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru ynghyd â'n hegwyddorion canllaw a'n gwerthoedd craidd. Mae'r Cynllun hwn yn nodi mentrau allweddol y bwriedir bwrw ymlaen â nhw dros y 5 mlynedd nesaf.

Yn yr **ymgynghoriad ar y Rhaglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB** a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022, ceisiwyd barn ynglŷn ag amrywiaeth eang o gamau gweithredu arfaethedig, yn cynnwys newidiadau i brotocolau profi TB, trefniadau ar gyfer Taliadau TB a Phrynu Gwybodus. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad **yma**.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adroddiadau a gyflwynwyd gan amryfal Grwpiau a Phwyllgorau, penderfynodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd roi mesurau'r Cynllun Cyflawni hwn ar waith yn raddol. Bydd rhai mesurau'n cael eu cyflwyno yn y tymor byr-canolig tra bydd eraill yn addas i'w cyd-ddylunio a'u cyflawni yn y tymor hwy, mewn cydweithrediad ag arbenigwyr y diwydiant ac arbenigwyr eraill.



# 3. Darlun o'r clefyd: Data hyd at 31 Rhagfyr 2022

Yn 2017, cyflwynodd Cymru strategaeth newydd ar gyfer dull rhanbarthol o ddileu TB. Seilir y dull hwn ar unedau gofodol oddi mewn i bum Ardal TB. Gellir dod o hyd i fap rhyngweithiol o Gymru yn ôl Ardal TB ac unedau gofodol ar **MapDataCymru** – gweler ffigur 1.


Nod y strategaeth hon yw sicrhau y bydd Cymru â Statws Heb TB Swyddogol erbyn 2041. Er mwyn inni allu pennu'r cynnydd tuag at ddileu TB, mae Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn casglu ac yn cyhoeddi metrigau allweddol. **Nodir y darlun diweddaraf mewn perthynas â'r clefyd yn Nangosfwrdd TB Cymru**. Caiff yr wybodaeth hon ei diweddaru bob chwarter ac mae'n cynnwys ystadegau perthnasol i TB a gyflwynir yn ôl Ardal TB. Mae'r diweddariad diwethaf ym mis Ionawr 2023 yn cynnwys data hyd at 30 Medi 2022. Mae'n bwysig ystyried y data yng nghyd-destun tueddiadau hirdymor, o gofio bod amrywiadau byrdymor i'w cael. Mae ffigur 2 a 3 yn dangos y tueddiadau tymor hwy mewn achosion a mynychder TB (buchesi dan gyfyngiadau ar ddiwedd chwarter fesul 100 o fuchesi byw).

Cyhoeddir rhagor o fanylion am ffigurau TB Buchol yn **adroddiadau blynyddol gwyliadwriaeth APHA**. Bydd adroddiad blynyddol gwyliadwriaeth 2021 yn cael ei gyhoeddi yn 2023.

Mae Defra yn cyhoeddi ystadegau cenedlaethol yn ymwneud â TB mewn gwartheg yng Nghymru yn ôl Ardal TB fel rhan o'i **ystadegau cenedlaethol diweddaraf ar dwbercwlosis (TB) mewn gwartheg ym Mhrydain – cyfres chwarterol**. Oherwydd gwahaniaethau mewn diffiniadau, ni fydd yr holl niferoedd a nodir yn nangosfwrdd TB ar-lein Cymru a'r ystadegau cenedlaethol a gyhoeddir gan Defra yn cyd-fynd â'i gilydd, ond dangosir yr un tueddiadau cyffredinol.



## Ffigur 1: Rhanbarthau TB cyn (a) ac ar ôl 1 Tachwedd 2021 (b)





Ffynhonnell: Data gwyliadwriaeth TB Gwartheg APHA.

Ar 1 Hydref 2017, sefydlwyd Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel ar sail mynychder y clefyd. Rhoddir mesurau uwch ar waith ym mhob Ardal TB. Caiff y mesurau eu teilwra er mwyn diogelu'r Ardal TB Isel rhag y clefyd ac er mwyn lleihau lefel y clefyd mewn Ardaloedd TB Canolradd ac Uchel.

O ganlyniad i dystiolaeth epidemiolegol yn ymwneud â lledaeniad y clefyd yn lleol mewn rhai rhannau o'r Ardal TB Isel (Sir Ddinbych/Dyffryn Conwy), ar 1 Tachwedd 2021 cafodd tair o unedau gofodol (sef CL1, CL2 a GW1) yn yr Ardal TB Isel eu symud dros dro i Ardal TB Ganolradd y Gogledd, fel y dangosir ym map (b) uchod.

## Ffigur 2: Map yn dangos mynychder TB lefel buches ar lefel Unedau Gofodol fesul blwyddyn




Ffynhonnell: Data gwyliadwriaeth TB Gwartheg APHA.

Fel y dangosir yn Ffigur 2, mae mynychder TB ar lefel buches mewn rhai Unedau Gofodol yn yr Ardal TB Isel wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar. Er mwyn cyflwyno mesurau rheoli uwch (cynnal profion cyn symud), ym mis Tachwedd 2021 symudwyd yr Unedau Gofodol hyn i Ardal TB Ganolradd y Gogledd. Ers 2018, mae Ardal TB Ganolradd y Gogledd wedi gweld lefelau mynychder sydd yn gyson uwchlaw'r trothwy ar gyfer Ardal TB Ganolradd, ac eithrio CL3 sydd, hyd at 2020, ar y trywydd iawn i symud i Ardal TB Isel.

## Ffigur 3: Mynychder a chyffredinrwydd TB lefel buches bob chwarter rhwng 2010 a 2022.




Ffynhonnell: Data gwyliadwriaeth TB Gwartheg APHA.

Ystyr mynychder TB yw'r nifer o achosion newydd fesul 100 o brofion gwyliadwriaeth Statws Heb TB Swyddogol ar y fuches gyfan. Ystyr cyffredinrwydd TB yw'r nifer o fuchesi o dan gyfyngiadau at ddibenion rheoli TB fesul 100 o fuchesi byw ym mhob chwarter.

Mae mynychder chwarterol TB ar lefel buches wedi lleihau'n raddol o 10.1 yn 2010 i 6.1 yn Ch4 2022. Gwelir y tuedd hwn yn Ardal TB Uchel y Gorllewin, yn Ardal TB Uchel y Dwyrain ac yn rhanbarthau Canolradd y Canolbarth, a gwelir lleihad amlwg yn yr Ardaloedd TB Uchel. Yn arbennig, mae mynychder TB wedi lleihau o 12.3 i 6.6 yn ardal TB Uchel y Gorllewin. Fodd bynnag, yn Ardal TB Ganolradd y Gogledd, yn gyffredinol mae mynychder TB wedi bod ar gynnydd ers 2016 er gwaethaf yr amrywiadau.

Gwelir gostyngiad mewn cyffredinrwydd chwarterol ar lefel buches, o 5.9% yn 2010 i 5.3% yn Ch4 2022. Er gwaethaf yr amrywiadau, gwelir tuedd cyffredinol ar i lawr yn Ardal TB Uchel y Dwyrain, gyda lleihad mewn cyffredinrwydd, o 7.7% yn 2010 i 5.9% yn 2022. Yn Ardal TB Uchel y Gorllewin, gwelir y lleihad mwyaf rhwng 2012 a 2014; ar ôl hynny, mae cyffredinrwydd TB yn amrywio.

Mae cyffredinrwydd TB wedi cynyddu yn Ardal TB Ganolradd y Gogledd, o 2.5% yn 2010 i 7.5% yn 2022. Yn yr Ardal TB Isel, mae cyffredinrwydd TB wedi tueddu i aros o dan 1% o fuchesi gwartheg bob chwarter.



# 4. Ein Polisi TB yng Nghymru

## Ein gweledigaeth, ein nodau a'n hegwyddorion craidd

Ein gweledigaeth yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau yng Nghymru a sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Rhaglen TB yn ategu'r weledigaeth hon trwy gyfrwng ymrwymiad parhaus i ddileu TB trwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef *gwell atal na gwella*.

Mae Cenhadaeth Rhaglen Dileu TB Cymru yn dal i fod yn berthnasol, sef: "*Cymru sy'n rhydd o TB ar gyfer diwydiant ffermio iach, proffidiol a chynaliadwy*". Mae'r pedair egwyddor allweddol mewn perthynas â rheoli clefydau heintus, sef: *Ei gadw allan, Ei ddarganfod yn gyflym, Ei rwystro rhag lledaenu, Cael gwared arno* yn berthnasol i bob rhan o'n Rhaglen ac mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt o ran datblygiad parhaus y mesurau i gryfhau ein dull.

### Ein Gweledigaeth:

Cymru sy'n rhydd o TB ar gyfer diwydiant ffermio iach, proffidiol a chynaliadwy

### Ein Hamcan:

Dileu TB buchol o Gymru erbyn 2041

### Ein Hegwyddorion:

- **Ei gadw allan** → Yn cynnwys Bioddiogelwch, Prynu Gwybodus
- **Ei ddarganfod yn gyflym** → Yn cynnwys Profion Blynyddol, Cyffiniol, Cyn/Ar ôl Symud
- **Ei rwystro rhag lledaenu** → Yn cynnwys Cyfyngu ar Symud Anifeiliaid
- **Cael gwared arno** → Yn cynnwys Lladd Anifeiliaid, Profion ar ôl Canfod Achosion

Mae'r ail Gynllun Cyflawni ar gyfer Dileu TB, sy'n ategu dogfen y Rhaglen, yn pennu meysydd gweithredu unigol y byddwn yn mynd i'r afael â nhw dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n darparu ar gyfer dull y gellir ei addasu o gyflawni polisi TB, sef dull a all ymateb i ddarlun newidiol y clefyd ar lawr gwlad, wrth inni anelu at ein targed o ddileu TB buchol o Gymru erbyn **2041**.

Ceir cysylltiadau trawsbynciol cryf rhwng y Rhaglen Dileu TB a'r **Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid (2014-2024)** deg mlynedd a **Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru**, y mae'r ddau ohonynt yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein rhaglen. Nodir y manylion a'r ymrwymiadau yn y **Cynllun Gweithredu**.

## Gwyliadwriaeth TB

Mae'r rhaglen profi a lladd gwartheg yn gwbl greiddiol i ddileu TB yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae rheoli organeb fel *Mycobacterium bovis*, sy'n gyfrifol am TB buchol, yn gallu bod yn dasg anodd. Gall fod yn anodd dod o hyd i'r organeb mewn anifeiliaid byw a marw fel ei gilydd; ac ar ôl i'r haint ddigwydd, gall oroesi yng nghelloedd amddiffynnol y corff am flynyddoedd lawer. Ni all unrhyw system sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â chynnal profion TB ganfod yr holl anifeiliaid heintiedig ac esgor ar ganlyniad positif (sensitifrwydd o 100%) na chanfod yr holl anifeiliaid sydd heb eu heintio ac esgor ar ganlyniad negatif (penodolrwydd o 100%). Mae gan rai profion, fel y prawf croen tuberculin, benodolrwydd uchel iawn, ond mae ei sensitifrwydd yn is, felly nid yw'r prawf hwn mor dda am ganfod anifeiliaid heintiedig. Mae profion eraill yn well am ganfod anifeiliaid heintiedig (h.y. mae ganddynt sensitifrwydd uwch), fel profion gama interfferon ac IDEXX, ond mae eu penodolrwydd ychydig yn is.

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r heriau hyn, rydym yn troi mwyfwy at ddefnyddio cyfuniad o brofion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer unrhyw sefyllfa. Y prawf croen tuberculin yw'r prif brawf diagnostig, ac ategir hyn trwy ddefnyddio profion gwaed gama interfferon ac IDEXX mewn modd strategol. Caiff pob buches yng Nghymru ei phrofi unwaith y flwyddyn; caiff buchesi yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yng ngorllewin Cymru eu profi bob 6 mis. Mae gwartheg sy'n symud o fewn ac o Ardaloedd TB Uchel a Chanolradd angen Prawf Cyn-Symud clir. Ar ben hynny, mae gwartheg sy'n symud i Ardal TB Isel o ardaloedd lle mae nifer yr achosion yn uwch angen Prawf Ôl-symud clir rhwng 60-120 diwrnod ar ôl cyrraedd.

## Rhannu Cymru yn rhanbarthau

Yn 2017, cyflwynwyd ein dull rhanbarthol o ddileu TB a chrëwyd Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel. Mae Cymru wedi'i rhannu'n Unedau Gofodol at ddibenion epidemiolegol, ac yn wreiddiol roedd pob Uned Ofodol yn cynnwys plwyfi cyfan o oddeutu 225 o fuchesi. Roedd yr Ardaloedd TB yn cwmpasu Unedau Gofodol cyfan, ac yn gyffredinol roeddynt wedi'u seilio ar glystyrau o Unedau Gofodol a chanddynt fynychder tebyg mewn perthynas â TB. Yn yr Ardaloedd TB gwahanol, gellir monitro cynnydd y clefyd a gellir rhoi dull mwy lleol ar waith pan fo angen.

## Clystyrau â phroblem TB a rheoli achosion

Er bod mynychder TB wedi tueddu i ostwng dros yr hirdymor yn yr Ardaloedd TB Uchel, gwelir tuedd mwyfwy difrifol y gellir ei olrhain i gynnydd mawr ym mynychder TB yn 2017 yn ardal wledig Wrecsam (oddi mewn i Ardal TB Ganolradd y Gogledd), ac yn fwy diweddar mae mynychder y clefyd wedi gwaethygu mewn clystyrau penodol â phroblem TB yn yr Ardal TB Isel, yn cynnwys Sir Ddinbych, Dyffryn Conwy a Phennal.

Mae pecyn cymorth o fesurau wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith yn yr ardaloedd hyn. Nod y pecyn cymorth hwn yw:

- Canfod y clefyd yn gyflymach mewn buchesi â Statws Heb TB Swyddogol (OTF) trwy gynnal profion croen tuberculin, profion gama interfferon a phrofion gwrthgyrff IDEXX yn amlach, a thrwy ailgyflwyno profion cyn symud mewn tair o Unedau Gofodol yn yr Ardal TB Isel a symudwyd dros dro i Ardal TB Ganolradd y Gogledd;
- Cael gwared â'r clefyd mewn buchesi lle ceir achosion o TB trwy ddefnyddio dehongliad mwy difrifol o'r prawf gwaed tuberculin, trwy ddefnyddio'r prawf gama interfferon yn strategol tua diwedd yr achos a thrwy roi mesurau pellach ar waith mewn ambell achos rheolaidd o TB;
- Cynnig rhagor o gyngor ynglŷn â bioddiogelwch i fuchesi sy'n gyfagos ag achos o TB (buchesi cyffiniol) trwy gyfrwng milfeddyg y ceidwad.

Bydd y mesurau a roddir ar waith yn y clystyrau hyn yn cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus; a phe bai'r sefyllfa o ran y clefyd yn datblygu, bydd newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r mesurau hyn. Mae un newid o'r fath a roddir ar waith yn 2023 yn cynnwys cyflwyno dehongliad difrifol o'r prawf croen tuberculin a chynnal profion gama interfferon ar adweithyddion amhendant (pan na ddaethpwyd o hyd i adweithyddion wrth brofi'r fuches) mewn buchesi cyffiniol ac yn ystod profion ar ôl achos, 6 mis a 18 mis ar ôl i'r achos TB ddod i ben.

Yn 2022, fe wnaethom gyflwyno mwy fyth o welliannau i'n dull trwy drin pob achos o TB fel Statws Heb TB Swyddogol Wedi'i Ddiddymu (OTFW) yn ddiofyn, gan sicrhau bod pob buches lle cafwyd achos o TB angen dau brawf clir cyn y gellir codi'r cyfyngiadau. Hefyd, cawsom wared â'r 'rheol tair blynedd' ar gyfer adweithyddion amhendant, gan sicrhau bod buchesi OTF, lle deuir o hyd i adweithyddion amhendant yn unig wrth brofi, yn dal i fod o dan gyfyngiadau hyd nes y bydd yr adweithyddion amhendant wedi cael canlyniad negatif.

Trwy gyfrwng Cynllun Gweithredu, caiff mesurau uwch eu rhoi ar waith mewn buchesi sydd ag achosion parhaus o TB ac sydd wedi bod o dan gyfyngiadau symud TB ers mwy na 18 mis. Mae'r mesurau hyn yn llymach er mwyn delio â'r clefyd mewn buchesi lle gallai TB fod yn endemig ar y fferm dros gyfnod hwy. Nod y mesurau hyn yw cynyddu sensitifrwydd y profion, lleihau symudiadau risg uwch o fewn y fuches, lleihau cyfraddau trosglwyddo rhwng gwartheg trwy gyflwyno gwelliannau i fioddiogelwch ffiniau a dulliau glanhau a diheintio a storio a defnyddio tail/slyri, a lleihau cyfraddau trosglwyddo rhwng gwartheg a moch daear trwy atal moch daear rhag cael mynediad at adeiladau, bwyd gwartheg a dŵr a thrwy leihau gallu'r gwartheg i gael mynediad at garthfeydd a brochfeydd moch daear.

Mewn nifer fechan o achosion parhaus o TB mewn buchesi, cafodd moch daear eu trapio, eu profi a'u difa neu eu brechu dros gyfnod o hyd at bedair blynedd. Fel y cyhoeddwyd yn 2021, mae'r dull trapio a phrofi yn cael ei ddiddymu'n raddol a bydd gwaith yn cael ei gwblhau ar y fferm olaf yn 2024.

Yn achos gwartheg a gaiff eu lladd o dan y Rhaglen Dileu TB, bydd eu ceidwaid yn cael tâl yn ôl gwerth y farchnad. Caiff y gwerth hwn ei bennu trwy brisio'r anifeiliaid yn unigol.

## Cynorthwyo ceidwaid y mae TB buchol yn effeithio arnynt

Mae ein Rhaglen yn mynd ati'n ofalus i gydbwyso anghenion y diwydiant â'r angen i reoli a dileu'r clefyd, ac rydym yn ymdrechu i sicrhau y bydd busnesau'n parhau i fod yn hyfyw yn wyneb achosion o TB. Ceir safleoedd y gellir gwerthu gwartheg iddynt o ffermydd sydd o dan gyfyngiadau TB, ac yn dilyn adborth gan y diwydiant rydym wedi ceisio symleiddio'r broses sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r safleoedd hyn.

Yn 2021, fe wnaethom gyflwyno newidiadau er mwyn annog y dasg o sefydlu Unedau Pesgi Cymeradwy newydd, yn benodol ar gyfer magu gwartheg ifanc, cyn eu symud i Uned Besgi Gymeradwy arall i'w pesgi, gan arwain felly at gynyddu'r nifer o safleoedd sydd ar gael i geidwaid o dan gyfyngiadau TB ar gyfer lloi llai economaidd hyfyw. Er mwyn hwyluso'r fasnach hon, mae Arwerthiannau Arbennig TB ("marchnadoedd oren") mewn Ardaloedd TB Uchel yng Nghymru wedi cael eu caniatáu, ac yn fwy diweddar rydym wedi cytuno y gellir symud anifeiliaid rhwng Unedau Pesgi Cymeradwy heb fod angen cynnal profion ar yr anifeiliaid cyn eu symud. Mae'r cyfnod amser ar gyfer defnyddio prawf croen tuberculin clir ar gyfer gwartheg a gaiff eu symud i Unedau Gwahanu TB wedi cael ei ymestyn o 30 diwrnod i 60 diwrnod, er mwyn cynorthwyo i lenwi'r unedau hyn o fewn y chwe wythnos a ganiateir.

Mae ymweliadau Cymorth TB gan filfeddygon (ymweliadau â chymhorthdal llawn) yn dal i fod ar gael i geidwaid ledled Cymru sy'n dioddef achos newydd o TB. Mae'r ymweliadau hyn gan filfeddyg preifat y ceidwad yn ffordd o gynnig cymorth a chyngor, a'r nod yw dileu TB o'r fuches cyn gynted â phosibl. Yng nghlystyrau TB Gogledd Cymru, mae ymweliadau milfeddygol ar gyfer 'ei gadw allan' ar gael i geidwaid y bydd eu buchesi'n cael canlyniad clir i brofion cyffiniol. Nod yr ymweliadau hyn yw cynorthwyo'r ceidwaid i ddiogelu eu buchesi rhag y clefyd.

## Brechu gwartheg

Yn 2020, arweiniodd yr ymateb trawslywodraethol i'r adolygiad annibynnol o strategaeth dileu TB 25 mlynedd Lloegr at bennu blaenoriaeth, sef datblygu '*a deployable cattle TB vaccine with the objective of introduction within the next five years*'. Mae ein rhaglen ar gyfer brechu gwartheg yn cynnwys pedwar o brosiectau cydgysylltiedig, sef: ymchwil a datblygu, tystiolaeth, polisi a dosbarthu.

## TB mewn rhywogaethau nad ydynt yn fuchol ac mewn bywyd gwyllt

Rhoddir trefn oddefol ar waith mewn perthynas â goruchwylio rhywogaethau nad ydynt yn fuchol, fel camelidau, geifr a cheirw fferm. Os ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai'r rhywogaethau hyn fod â TB, os ydynt yn gyfagos ag achos o TB neu os cânt eu lleoli ar fferm lle ceir achos o TB, bydd profion yn cael eu cynnal arnynt.

Cydnabyddir y gallai moch daear gyfrannu at drosglwyddo TB buchol i/o wartheg a rhwng moch daear eraill. Gan barchu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wahardd yr arfer o ladd moch daear er mwyn rheoli TB buchol mewn gwartheg, mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â pholisi ar gyfer brechu moch daear.

Caiff bywyd gwyllt ei oruchwylio trwy gyfrwng yr Arolwg o Foch Daear Marw a thrwy gasglu samplau o geirw a saethir ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru a chan helwyr ceirw annibynnol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull ar wefan Llywodraeth Cymru –
**www.llyw.cymru/tb-mewn-gwartheg**

# Dull o'r newydd ar gyfer dileu TB

## 5. **Y Rhaglen Lywodraethu**

### Bwrdd y Rhaglen Dileu TB

Bydd y broses ar gyfer penodi aelodau a Chadeirydd ar gyfer Bwrdd Rhaglen a Benodir yn Gyhoeddus yn dechrau yn 2023. Bydd y Bwrdd yn cynnwys amryfal gynrychiolwyr o bob rhan o'r diwydiant, gan sicrhau y bydd yr holl sectorau a'r holl fuddiannau'n cael eu cynrychioli a'u hystyried.

Bydd y Bwrdd yn goruchwylio'r Rhaglen Dileu TB a bydd yn helpu i siapio'r rhaglen trwy gynnig arweiniad a chyngor polisi i Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal â chytuno ar y Cylch Gorchwyl, un o dasgau cyntaf y Bwrdd fydd ystyried ac argymell y modd y gall rhanddeiliaid gyfrannu at y Rhaglen.

### Grŵp Cynghori Technegol

Mae'r Athro Glyn Hewinson, Cadeirydd Sêr Cymru yn y Ganolfan Ragoriaeth TB yn Aberystwyth, wedi'i benodi gan y Gweinidog yn Gadeirydd Grŵp Cynghori Technegol. Bydd rhagor o benodiadau'n cael eu gwneud yn nes ymlaen 2023.

Bydd y Grŵp yn adrodd i Fwrdd y Rhaglen, gan gynnig arbenigedd technegol yn ymwneud â meysydd polisi allweddol.

Mae'r meysydd â blaenoriaeth y bydd y Grŵp Cynghori Technegol yn eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Trefn brofi ar gyfer goruchwylio TB;
- Ystyried ein polisi lladd buwch beichiog;
- Brechu gwartheg;
- Asesu'r effaith debygol a gaiff gwasgaru slyri ar drosglwyddo TB buchol, opsiynau rheoli seiliedig ar risg a dileu TB buchol o'r amgylchedd.



# 6. Cyfraniad rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth

## Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar TB ac Ymgysylltu â Ffermwyr

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei ffurfio. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys amryfal gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector ffermio ynghyd ag aelodau milfeddygol ac academaidd. Gofynnwyd i'r Grŵp ystyried sut gellir gwella cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng y llywodraeth a'r sector ffermio.

Cyhoeddwyd **adroddiad terfynol** y Grŵp ym mis Mai 2022. Mae'r adroddiad yn cynnwys pump o argymhellion. Nodir y rhain isod ochr yn ochr â'n camau gweithredu arfaethedig.

1. Data profi
2. Ymgysylltu â Ffermwyr
3. Gwella Cyfathrebu
4. Llywodraethu Rhaglenni
5. Prynu Gwybodus

Mae manylion pellach i'w gweld yn Nhabl 1, ynghyd â'n camau gweithredu arfaethedig.



**Tabl 1: Argymhelliad, ymateb y llywodraeth a chamau arfaethedig gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar TB ac Ymgysylltu â Ffermwyr**

| | Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Camau Gweithredu Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Data Profi**<br>Mwy o ddata profi TB ar gael yn haws i ffermwyr a milfeddygon preifat. Bydd hyn yn cyfrannu at benderfyniadau mwy gwybodus a mwy cyfrifol yn y pen draw ynghylch symudiadau gwartheg, rheoli buchesi a bioddiogelwch ffermydd, a fydd i gyd yn cael effaith sylweddol ar reoli TB, yn enwedig os gellir adnabod a chyfyngu ar anifeiliaid risg uwch. | Caiff ceidwaid wybod yn llawn am ganlyniadau'r holl brofion TB a gynhelir ar eu buchesi. Mae gan geidwaid ryddid i rannu'r wybodaeth honno â'u milfeddyg preifat neu â phwy bynnag y dewisant ei rhannu. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r ffordd orau o sicrhau bod gwybodaeth am brofion TB a data hanesyddol ar gael er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth GDPR y DU. | • Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag APHA i wella mynediad at ddata profion TB. |
| **2.** | **Ymgysylltu â Ffermwyr**<br>Galluogi ffermwyr, milfeddygon preifat a milfeddygon swyddogol i weithio'n agosach mewn partneriaeth â milfeddygon APHA. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno grymuso ffermwyr a milfeddygon i wneud penderfyniadau prydlon a gwybodus ac atal achosion o TB; un ffordd o wneud hynny yw drwy rannu data profion TB. Bydd 'Siop Un Stop' annibynnol ar gyfer data, gwybodaeth, arweiniad a chymorth yn cyfrannu at hyn a bydd yn helpu i liniaru a lleihau achosion o gamwybodaeth a chamsyniadau ar draws y diwydiant. | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y manteision o ran cynnwys ffermwyr, milfeddygon preifat a milfeddygon APHA, fel y gwelwyd mewn gwaith blaenorol yn y maes hwn i hyrwyddo'r arfer o weithio ar y cyd (e.e. Cymorth TB, DRF peilot). | Gweithio gyda ffermwyr, APHA a milfeddygol preifat cyn ac yn ystod achosion o TB, cyfathrebu trwy gyfrwng cyfarfodydd diweddaru Milfeddygon Swyddogol a defnyddio Cymorth TB/y rhaglen Ei Gadw Allan, gan gydnabod y rhwystrau a chan ystyried ffyrdd o weithredu ar y cyd, yn cynnwys:<br>• Prosiect Sir Benfro (gweler uchod).<br>• Creu cysylltiadau cryfach â cholegau, prifysgolion a grwpiau cynrychiolwyr er mwyn atgyfnerthu hyfforddiant a rhannu gwybodaeth.<br>• Cyflwyno amryfal sesiynau hyfforddi 'galw heibio' neu sesiynau hyfforddi ar y fferm ar gyfer ffermwyr.<br>• Bydd canlyniadau'r gwaith hwn ochr yn ochr ag adolygiad o Cymorth TB yn llywio'r cyfeiriad yn y dyfodol. Ystyrir cynnig ffynhonnell annibynnol ar gyfer darparu data. |

| | Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Camau Gweithredu Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **3.** | **Gwella Cyfathrebu**<br>Newidiadau i fformat, iaith a thôn llythyrau a hysbysiadau sy'n glanio ar garreg drws ffermwyr, a fydd yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i wella'r berthynas rhwng ffermwyr ac awdurdod. | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen cyfathrebu â cheidwaid ynglŷn â TB mewn modd clir ac effeithiol, a chydag empathi. | Mae angen inni wireddu rhai enillion cyflym sydd ar gael mewn perthynas â chyfathrebu, ond bydd agweddau eraill – fel llythyrau APHA sydd wedi'u hymgorffori yn system SAM – yn anos ac yn ddrytach i'w cyflawni:<br>• Eisoes, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi newidiadau ar waith i symleiddio llythyrau a Chwestiynau Cyffredin, gan weithio gyda'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm ac Undebau'r Ffermwyr.<br>• Yn y tymor hwy, rydym yn awyddus i hyrwyddo'r syniad y gallai aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen (neu unigolion ehangach) a grwpiau partneriaeth ledled Cymru/Lloegr weithio gydag APHA i adolygu llythyrau. |
| **4.** | **Llywodraethu Rhaglenni**<br>Bydd adolygiadau o Gylch Gorchwyl y byrddau TB presennol, yn ogystal ag adolygiadau o fentrau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes (e.e. Cymorth TB) yn helpu i wella ymgysylltiad a'r nifer sy'n manteisio ar fentrau presennol/newydd. Adeiladu ar lwyddiant a dechrau prosiectau treialu fel canlyniad penodol gan fyrddau/grwpiau/cynlluniau presennol. | Rydym yn derbyn bod angen adolygu'n rheolaidd Gylch Gorchwyl y Byrddau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Dileu TB. Caiff mentrau fel Cymorth TB eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben a'u bod yn cyflawni er budd y Llywodraeth ac er budd y diwydiant. | • Fel rhan o'r dull newydd o Ddileu TB yng Nghymru, mae adolygiad o'r rhaglen Lywodraethu, a gyfarwyddir gan argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ac adroddiadau eraill, wrthi'n cael ei gynnal.<br>• Mae gwaith ar y gweill eisoes i benodi Bwrdd Rhaglen a Grŵp Cynghori Technegol newydd trwy gyfrwng y broses penodiadau cyhoeddus.<br>• Ystyrir mai un o brif dasgau Bwrdd y Rhaglen fydd sefydlu Byrddau Dileu/Ymgysylltu newydd yn rhanbarthol neu'n lleol. |

| | Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Camau Gweithredu Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 5. | **Prynu Gwybodus**<br>Gweithredu brys ar Fasnachu ar Sail Risg – neu Brynu Gwybodus – gyda chydweithio trawsffiniol ar gronfa ddata ganolog, ffynhonnell agored i gynnwys hanesion profion TB hanfodol a chyda mecanweithiau sy’n galluogi datgelu gwybodaeth berthnasol mewn martiau/arwerthiannau i wneud prynu gwartheg mewn modd gwybodus yn realiti. | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen gweithredu mewn perthynas â Phrynu Gwybodus – menter sydd wedi’i hyrwyddo ar sail wirfoddol ers blynyddoedd lawer. | • Bydd cynllun ar gyfer Prynu Gwybodus gorfodol yn cael ei ddatblygu trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hyrwyddo’r manteision sy’n perthyn i brynu gwybodus er mwyn i geidwaid allu asesu’r risgiau posibl sydd ynghlwm wrth gyflwyno gwartheg i’w buchesi.<br>• Rydym yn hyrwyddo platfform ibTB sy’n galluogi’r defnyddwyr i edrych ar achosion o TB fel y gallant wneud penderfyniadau prynu mwy gwybodus. Yn y tymor byr-canolig, y bwriad yw cyflwyno deddfwriaeth newydd fel y gellir arddangos gwybodaeth am fuchesi sy’n rhydd o TB ar ibTB er mwyn rhoi mwy fyth o ddata i geidwaid ar gyfer prynu gwartheg yn fwy diogel.<br>• Rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth er mwyn cynorthwyo i gyflwyno porth Amlrywogaethau Cymru (MSW) a’r cyfleoedd y gall y porth eu cynnig. |

# 7. Cyflawni

## Dull rhanbarthol a thargedau

Mae'r dull rhanbarthol o ddileu TB a'r gwaith o greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel yng Nghymru wedi arwain at ddull hyblyg y gellir ei addasu o ddelio â'r gwahanol elfennau sy'n sbarduno'r clefyd ym mhob un o'r ardaloedd TB. Yn Atodiad 1, ceir map yn dangos yr Ardaloedd TB rhanbarthol fel yr oeddynt ym mis Chwefror 2023. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod **targedau** ar gyfer dileu TB yng Nghymru.

Bydd adolygiad epidemiolegol o'r rhanbarthau yn erbyn y targedau yn cael ei gynnal yn 2024 ar ôl cyrraedd diwedd y gyfres gyntaf o gerrig milltir rhanbarthol a byrdymor cychwynnol ar gyfer dileu TB, a osodwyd yn 2017.

Bydd yr adolygiad yn llywio'r gwaith o drosglwyddo unedau gofodol, gan ddibynnu ar fynychder TB mewn buchesi yn y rhanbarthau. Hefyd, bydd yn ystyried a ydym wedi cyrraedd y targedau ar gyfer y chwe blynedd gyntaf; ac os nad ydym wedi eu cyrraedd, bydd yn ystyried pa gamau a mesurau y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn ein tywys i'r cyfeiriad iawn a'n rhoi'n ôl ar y trywydd iawn ar gyfer cyrraedd y targed dros y chwe blynedd nesaf.

**Tabl 2: Amserlen Cymru ar gyfer dileu TB, sy'n deillio o ddatganiad polisi cyhoeddedig (1); fe'i diwygiwyd er mwyn cynnwys cyffredinrwydd dros amser yn y cyfnod cyn statws OTF**

| | TB Isel | Ardaloedd TB Canolradd | | Ardaloedd TB Uchel | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Gogledd | Y Canolbarth | Y Dwyrain | Y Gorllewin |
| 2018–2023 | OTF | Lleihad o 50% mewn mynychder | Lleihad o 50% mewn mynychder | Lleihad o 50% mewn mynychder | Lleihad o 50% mewn mynychder |
| | ↓ | Symud CL3 i ardal TB Isel; uno Ardaloedd Canolradd | | Symud PN1 ac CE4 i Ardal TB Ganolradd | |
| 2024–2029 | OTF | <0.1% mynychder, <0.1% cyffredinrwydd | | Lleihad o 40% mewn mynychder | Lleihad o 40% mewn mynychder |
| | ↓ | Symud Unedau Gofodol i Ardal TB Isel | | Symud Unedau Gofodol i Ardal TB Ganolradd | |
| 2030–2035 | OTF | | | <0.1% mynychder, <0.1% cyffredinrwydd | <0.1% mynychder, <0.1% cyffredinrwydd |
| | ↓ | | | | |
| 2036–2041 | OTF | | | | |

## Clystyrau â Phroblem TB yng Nghymru

Mae pecyn cymorth o fesurau wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith mewn ardaloedd â phroblem TB. Mae Tîm Epidemioleg APHA yn monitro lefelau a thueddiadau'r clefyd yn barhaus, gyda'r bwriad o bennu ardaloedd sy'n destun pryder a mannau newydd a datblygol a allai fod â phroblem TB.

## Ardal TB Ganolradd y Gogledd


Byddwn yn parhau i fonitro'r clefyd yn fanwl yn yr ardal hon. Byddwn yn ystyried cyflwyno newidiadau perthnasol i'r polisi ar sail y sefyllfa newidiol.

## Ardal TB Isel, yn cynnwys Ynys Môn

Ers sawl blwyddyn, roedd y rhan fwyaf o achosion a welwyd yn yr Ardal TB Isel wedi digwydd yn sgil prynu gwartheg o ardaloedd risg uwch. Byddwn yn parhau i gyfleu risgiau o'r fath trwy gyfrwng ein polisi 'cael gwared arno'. Fodd bynnag, ceir pryder cynyddol ynglŷn â'r ffaith y gallai'r clefyd ymsefydlu'n lleol ar ôl iddo gael ei gyflwyno oddi allan.

Un ardal sy'n destun pryder o'r fath yw Ynys Môn, lle gwelir cynnydd mawr yn y clefyd. Rydym yn ystyried pa gamau lleol y gellir eu cymryd a'u cyflwyno.

**Ffigur 4: Ffigur 4: Map o'r Gogledd yn dangos yr unedau gofodol y mae mesurau ychwanegol ar waith**




Ffynhonnell: Data gwyliadwriaeth TB Gwartheg APHA.

Mae gwartheg yn gallu trosglwyddo'r clefyd i boblogaethau lleol o foch daear pan fo mynychder y clefyd ar gynnydd ymhlith gwartheg. Ein nod yw amddiffyn poblogaeth moch daear Ynys Môn trwy wneud y canlynol:

- Arolygu Ynys Cybi, gyda'r nod o ystyried brechu moch daear wedi hynny.
- Ystyried arolygu bywyd gwyllt/ffermydd ar gyfer gweddill Ynys Môn.


Byddwn yn ystyried defnyddio mesurau ychwanegol yn ymwneud â gwartheg ar Ynys Môn, neu'n ehangach yn yr Ardal TB Isel, yn cynnwys y mesurau a gyflwynwyd eisoes yn ardal wledig Wrecsam, Sir Ddinbych a Dyffryn Conwy.

Mewn ymdrech i amddiffyn mwy fyth ar Ardaloedd TB Isel, yn cynnwys Ynys Môn, y bwriad yw cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer cynnal Profion Cyn Symud wrth symud anifeiliaid oddi mewn i'r Ardal TB Isel ac allan o'r Ardal TB Isel.

## Sir Benfro

Rydym wedi bod yn ystyried sut i fynd i'r afael â lefelau disyflyd y clefyd mewn rhannau o Sir Benfro, lle mae mynychder a chyffredinrwydd TB lefel buches wedi gwaethygu o gymharu â'r sefyllfa gyffredinol. Yn unol â'r ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad ac adroddiad Grŵp Ffocws TB yr NFU, rydym yn archwilio trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer dileu TB ar lefel leol.

**Ffigur 5: Map o'r Gorllewin yn dangos yr unedau gofodol lle y mae mesurau ychwanegol ar waith**




Ffynhonnell: Data gwyliadwriaeth TB Gwartheg APHA.

Bydd prosiect a gynhelir ar y cyd â'r diwydiant yn cael ei roi ar y gweill er mwyn gweithio ar nifer bach o ffermydd yn Sir Benfro, gyda'r nod o alluogi milfeddygon a ffermwyr i wneud penderfyniadau cytbwys a dangos arweiniad o ran rheoli'r clefyd. Bydd y prosiect yn datblygu ac yn gweithredu rhagor o ddulliau ar gyfer rheoli TB buchol, yn ychwanegol at y mesurau statudol a ddefnyddir yn yr ardal ar hyn o bryd.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar bennu'r risg sydd ynghlwm wrth glefyd gweddillol ymhlith gwartheg a gaiff brofion clir, a hefyd bydd yn datblygu llwybr ar gyfer lleihau'r risg o ran trosglwyddo'r clefyd o fuwch i fuwch. Gwneir hyn trwy ddefnyddio dull seiliedig ar risg yn ymwneud â phennu a rheoli anifeiliaid risg uchel trwy eu lladd a thrwy sicrhau bod milfeddygon yn goruchwylio arferion bioddiogelwch yn fanwl.

Ein gobaith yw y byddwn yn dysgu yn sgil y prosiect hwn ac yn annog ardaloedd eraill i roi technegau ymgysylltu a chyd-gynhyrchu tebyg ar waith os gwelir eu bod wedi llwyddo yn Sir Benfro. Mae ffigur 5 yn dangos yr unedau gofodol sy'n cyd-fynd â'r prosiect.

## Unedau Pesgi Cymeradwy

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu ceidwaid o ran symud gwartheg ifanc o'u buchesi tra maent o dan gyfyngiadau TB. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r diwydiant i archwilio ffyrdd o wella a symleiddio'r arfer o symud anifeiliaid mewn modd bioddiogel i Unedau Pesgi Cymeradwy TB.

Gan fod y rhan fwyaf o'r anifeiliaid sy'n symud o fuchesi o dan gyfyngiadau TB yng Nghymru yn cael eu cludo i Unedau Pesgi Cymeradwy yn Lloegr, bydd angen i Lywodraeth Cymru a Defra gytuno ar unrhyw newidiadau ar y cyd. Rydym ni a Defra wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr y diwydiant er mwyn trafod ffyrdd o wella a symleiddio'r broses hon.

Gofynnwyd inni ystyried codi terfyn oedran anifeiliaid sydd wedi'u heithrio rhag profion cyn symud yn ogystal â symleiddio'r broses drwyddedu er mwyn helpu ceidwaid i reoli'r gwartheg ifanc sy'n gadael eu buchesi. Gan gytuno â Defra, nid ydym yn chwannog i ganiatáu'r newid hwn. Er nad yw'r gwaith dadansoddi yn dangos risg ychwanegol sylweddol yn sgil cynyddu terfyn oedran anifeiliaid sydd wedi'u heithrio rhag profion cyn symud, nid yw tueddiadau'r farchnad yn dangos bod galw i'w gael am hyn ledled y diwydiant.

Fodd bynnag, rydym wedi cytuno mewn egwyddor i symleiddio'r broses drwyddedu, gan gael gwared â'r angen i wneud cais am drwydded unigol ar gyfer pob symudiad, ac rydym o'r farn ei bod yn fwy priodol inni ddyrannu adnoddau ar gyfer cyflawni'r newid hwn. Mae APHA yn ystyried yr opsiynau gwahanol a'r newidiadau angenrheidiol y bydd angen eu cyflwyno i brosesau er mwyn gallu bwrw ymlaen â hyn.

## Taliad am wartheg sy'n dioddef o TB

Roedd yr ymgynghoriad ar y Rhaglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB yn 2021-22 yn cynnwys tri chynnig yn ymwneud â newid y drefn ar gyfer gwneud taliadau TB, sef:

- Prisiau tabl
- Prisiau tabl ynghyd ag ychwanegiad am fod yn aelod o gynllun iechyd anifeiliaid achrededig cymeradwy
- Ardoll y diwydiant.

Yn **Natganiad Ysgrifenedig** Gorffennaf 2022, dywedasom y byddem yn ymgysylltu â'r diwydiant i archwilio'r opsiynau uchod er mwyn canfod a allai hyn arbed costau o ran taliadau TB, tra'n cydbwyso'r angen i wobrwyo arferion ffermio da a'r arfer o roi dulliau atal a rheoli clefydau ar waith. Efallai y bydd hyn yn cynnwys cysylltu'r drefn Taliadau TB â safonau bioddiogelwch (er enghraifft, y rhai a nodir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy).

Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn yn awr. Byddwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu ymhellach â'r diwydiant cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â newid y drefn taliadau TB.

## Prynu Gwybodus

Mewn rhai ardaloedd, gall y risg o du symud gwartheg fod yn sylweddol. O'r herwydd, mae Prynu Gwybodus yn eithriadol o bwysig i'n nod cyffredin, sef dileu TB. Mae hi'n hanfodol i geidwaid ofyn y cwestiynau iawn cyn prynu gwartheg a gweithredu fel y bo'n briodol er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno TB i'w buches.

Cynhwyswyd dwy agwedd ar Brynu Gwybodus yn ymgynghoriad 2021-22, sef:

- Cyhoeddi gwybodaeth am fuchesi sy'n rhydd o TB ar **ibTB**;
- Ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu.

Offeryn mapio rhyngweithiol ar-lein defnyddiol yw **ibTB** ac mae'n helpu ffermwyr a'u milfeddygon i ddeall lefel TB buchol yn eu hardal a rheoli'r risgiau wrth brynu gwartheg.

Yn dilyn ymatebion cadarnhaol i'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cyflwyno newid yn y ddeddfwriaeth er mwyn ei gwneud yn bosibl i arddangos gwybodaeth am fuchesi sy'n rhydd o TB ar ibTB.

O ystyried y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth yn y man gwerthu, ac er mwyn sicrhau cysondeb trwy Gymru a Lloegr, bydd angen ymgysylltu rhagor â Defra a'r diwydiant. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y goblygiadau posibl i geidwaid pe na baent yn dilyn egwyddorion prynu gwybodus. Ar ôl i'r ymgysylltu hwn ddod i ben, byddwn yn rhannu cynllun ac amserlen fanwl.

## Profion TB ar Wartheg

Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â chapasiti milfeddygon yng Nghymru, aethom ati i gomisiynu ymgynghorwyr i archwilio opsiynau ar gyfer cynnal profion TB.

Roedd yr **adroddiad** yn cefnogi'r syniad o ddefnyddio profwyr TB lleyg a rhoddwyd y polisi ar waith ym mis Hydref 2022 trwy gyfrwng Partneriaid Cyflawni Milfeddygol, Iechyd Da (Gwledig) Cyf a Menter a Busnes. O dan y cynllun peilot, mae Profwyr Tuberculin Cymeradwy yn cynnal profion TB mewn rhannau o Gymru. Cynhelir gwaith gwerthuso ochr yn ochr â'r cynllun peilot er mwyn gweld a fydd y dull hwn yn cael ei roi ar waith trwy'r wlad yn barhaol.

## Brechu gwartheg

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ledled y DU yn ymwneud â gwahanol agweddau ar frechu gwartheg.

Mae gweinyddwyr Prydain yn ariannu prosiect sy'n anelu at sicrhau caniatâd marchnata o fewn y DU ar gyfer brechiad BCG Gwartheg a DST-F, sef prawf croen newydd ar gyfer canfod anifeiliaid heintiedig ymhlith anifeiliaid sydd wedi'u brechu (fe'i gelwir hefyd yn brawf "DIVA"). Rhagwelir y bydd hyn yn helpu i achub miloedd o wartheg bob blwyddyn – hynny yw, gwartheg a fyddai wedi cael eu lladd er mwyn atal lledaeniad y clefyd.

Mae APHA wrthi'n cynnal treialon yn ymwneud â BCG Gwartheg a DST-F. Yng ngham 1 y treialon maes, aseswyd diogelwch a phenodolrwydd y prawf croen DST-F. Cwblhawyd y cam hwnnw ym mis Mai 2022. Roedd cwblhau cam 1 yn garreg filltir bwysig o ran sicrhau bod Llywodraeth y DU yn dal i fod ar y trywydd iawn o ran darparu brechlyn a phrawf croen DIVA i wartheg ar gyfer TB buchol.

Mae ail gam y treialon maes ar waith erbyn hyn. Bydd y cam hwn yn asesu diogelwch y brechlyn BCG Gwartheg ynghyd â diogelwch a phenodolrwydd y prawf croen DIVA mewn gwartheg wedi'u brechu. Hyd yn hyn, mae astudiaethau arbrofol yn dangos bod y brechlyn a'r prawf DIVA yn ddiogel ac yn fanwl gywir mewn amgylcheddau a reolir yng nghyfleuster APHA. Disgwylir i'r treial ddod i ben yn 2023.

Fel yn achos meddyginiaethau milfeddygol o fath arall, yn ychwanegol at astudiaethau yn y labordy rhaid dangos bod y brechlyn BCG Gwartheg a'r prawf croen DST-F yn effeithiol ac yn ddiogel yn y maes cyn y gall y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol eu hawdurdodi.

Rydym yn parhau i weithio gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill i benodi gweithgynhyrchwr i gynhyrchu elfennau'r prawf DIVA. Bydd y Grŵp Cynghori Technegol yn ystyried opsiynau dosbarthu ar gyfer Cymru, gyda'r nod o gyflwyno'r prawf pan fydd cynnyrch trwyddedig ar gael.

## Brechu moch ddaear

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i redeg cynllun Grant Brechu Moch Daear er mwyn cynorthwyo ffermwyr ledled Cymru i frechu moch daear ar eu tir. Gwneir hyn trwy ddarparu 50% o'r gost trwy gyfrwng cynllun grant, cyn belled â bod y ffermwyr yn bodloni meini prawf y grant.

Mae ein cynllun Grant Brechu Moch Daear presennol yn cynorthwyo 42 o ffermydd dros ardal sydd rywfaint yn fwy na 46km$^2$. Bydd Ynys Cybi yn cael ei harolygu yn 2023 er mwyn paratoi ar gyfer brechu ychwaneg o foch daear.

Bwriadwn adolygu ein polisi brechu moch daear yn 2023-24.

# 8. Newidiadau deddfwriaethol

Yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2021-22 ynglŷn â Rhaglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB, nodwyd newidiadau posibl mewn polisïau a deddfwriaethau. Ein bwriad yw cyflwyno'r newidiadau canlynol i Orchymyn TB (Cymru) 2010:

**i.** Adfer Profion Cyn Symud wrth symud gwartheg yn yr Ardal TB Isel, gan barhau i gynnal Profion Ar ôl Symud.

**i.** Cyflwyno Profion Cyn Symud wrth symud gwartheg o Ardaloedd TB Uchel, o Ardal Risg Uchel Lloegr ac o Ogledd Iwerddon i ddaliadau mewn Ardaloedd TB Canolradd.

**i.** Cyflwyno gofyniad cyfreithiol i ffermwyr beidio â symud gwartheg rhwng diwrnod 1 y prawf (TT1) a diwrnod 2 y prawf (TT2) a rhwng profion gwaed a'r adeg y ceir y canlyniadau.

**i.** Cyflwyno gofyniad yn mynnu y dylid ceisio caniatâd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu sampl, cynnal prawf, cynnal prawf ar unrhyw sampl a sicrhau y rhoddir gwybod yn syth am ganlyniadau profion o'r fath.

**i.** Gwahardd yr arfer o fwydo llaeth heb ei basteureiddio i dda byw ar safleoedd OTFW.

**i.** Nodi ar ibTB ers sawl blwyddyn mae'r fuches wedi bod yn rhydd o TB.

Bydd newidiadau arfaethedig yn dilyn proses ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn.

Ystyrir ychwaneg o newidiadau i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 a Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 yn ystod camau dilynol y newidiadau cyfreithiol dros gyfnod y Cynllun hwn.



# 9. Monitro ac adolygu ein Rhaglen Dileu TB

Caiff tueddiadau TB eu monitro trwy gyfrwng dadansoddiadau ac adroddiadau rheolaidd. Er enghraifft:

- Ystadegau misol yn dangos achosion newydd, achosion agored, achosion caeedig, yr anifeiliaid a laddwyd er mwyn rheoli TB a'r profion a gynhaliwyd.
- Adroddiadau chwarterol lle ceir dadansoddiadau ystadegol ac epidemiolegol yn ymwneud â mynychder, cyffredinrwydd, ailheintiadau a nodweddion perthnasol eraill yn ymwneud â chynnydd y clefyd. Fe'u crynhoir yn Nangosfwrdd TB Cymru.
- Adroddiadau blynyddol manwl, fel Adroddiad Blynyddol Gwyliadwriaeth Cymru.

Bydd y Cynllun Cyflawni hwn yn cael ei adolygu, a bydd diweddariad blynyddol yn cael ei gyflwyno gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.




# 10. **Crynodeb**

| Maes gwaith | Tymor byr | Tymor canolig | Tymor hwy |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | Penodi Cadeirydd ac aelodau ar gyfer Bwrdd y Rhaglen a phenodi aelodau ar gyfer y Grŵp Cynghori Technegol. | Cytuno ar Gylch Gorchwyl.<br>Llunio blaengynllun. | Cyflawni ar sail y blaengynllun.<br>Llywio'r cyfeiriad a gwneud penderfyniadau. |
| **Argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen** | Newid fformat, iaith a thôn llythyrau a hysbysiadau. | Hwyluso ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda milfeddygon APHA.<br>Defnyddio rôl milfeddygon preifat i'w llawn botensial. | Gwella argaeledd data'n ymwneud â phrofion TB ar gyfer rhanddeiliaid. |
| **Rhanbarthau a thargedau** | Cadw golwg ar y sefyllfa. | Adolygu targed 2024 mewn perthynas â'r rhanbarthau. | Symud unedau gofodol fel y bo'n briodol. |
| **Clystyrau â Phroblem TB yn Ardal TB Ganolradd y Gogledd/yr Ardal TB Isel** | Bydd profion cyffiniol cychwynnol a phrofion ar ôl achosion (oddeutu 6 mis a 18 mis ar ôl codi'r cyfyngiadau symud) yn cael eu dehongli mewn modd mwy 'difrifol'. | Monitro a datblygu mesurau newydd yn unol â lefelau'r clefyd. | |
| **Cynnydd yn y clefyd ar Ynys Môn** | Ystyried cam cyntaf y mesurau. | Parhau i gyfathrebu â ffermwyr ynglŷn â'r mesurau a roddir ar waith. | Gweithredu'r polisi ar sail gwaith gwerthuso epidemiolegol. |
| **Prosiect ar gyfer ymdrin â mynychder TB yn Sir Benfro** | Gwahodd cynigion ar gyfer cyflawni'r prosiect. | Dyfarnu'r tendr a dechrau ar y gwaith. | Bydd y prosiect yn cael ei gynnal am 2 flynedd, gyda'r opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn arall. |

| Maes gwaith | Tymor byr | Tymor canolig | Tymor hwy |
|---|---|---|---|
| **Unedau Pesgi Cymeradwy** | Ystyried opsiynau ar gyfer symleiddio'r broses drwyddedu. | Mynd ati i symleiddio'r broses drwyddedu. | Parhau i ymgysylltu â'r diwydiant. |
| **Taliadau TB** | Ymgysylltu â'r diwydiant ynglŷn ag opsiynau'n ymwneud â Thaliadau TB. | Mynd i'r afael â gwaith ymgynghori a dadansoddi mewn perthynas â'r gallu i gyflawni hyn ac mewn perthynas â'r costau. | Newid y drefn ar gyfer Taliadau TB. |
| **Prynu Gwybodus** | Newid y ddeddfwriaeth fel y gellir cyhoeddi gwybodaeth am fuchesi sy'n rhydd o TB ar ibTB. | Ymgysylltu â Defra a'r diwydiant ynglŷn â Phrynu Gwybodus. | Cyflwyno trefn orfodol yn ymwneud â Phrynu Gwybodus. |
| **Profion TB** | Awdurdodi'r arfer o ddefnyddio Profwyr Tuberculin Cymeradwy yng Nghymru. | Gwerthuso'r cynllun peilot ar gyfer defnyddio Profwyr Tuberculin Cymeradwy. | Addasu'r polisi pe bai angen. |
| **Brechu gwartheg** | Cymryd rhan mewn trafodaethau ledled y DU yn ymwneud â brechu gwartheg. | Ymgynghori ynglŷn â'r syniad o frechu gwartheg. | Defnyddio'r brechlyn a'r prawf DIVA ar ôl iddynt gael eu trwyddedu. |
| **Brechu moch daear** | Parhau â gwaith a ariennir gan y Grant. | Ystyried brechu moch daear ar Ynys Cybi ac Ynys Môn. | Adolygu'r drefn o ran brechu moch daear. |
| **Newidiadau deddfwriaethol** | Diwygio Gorchymyn TB (Cymru) 2010. | Ystyried cyflwyno newidiadau eraill i Orchmynion TB 2010 a 2011. | Diwygio'r ddeddfwriaeth fel y bo'n briodol. |
| **Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy** | Cadw golwg | Parhau i gyfathrebu â'r diwydiant | Cysylltu'r datblygiad o daliadau TB a Phrynu Gwybodus â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy |

# Atodiad 1: **Map o Ranbarthau Cymru**

Ffiniau Ardal TB Cymru o fis Mawrth 2023




Ffynhonnell: Data gwyliadwriaeth TB Gwartheg APHA.